



Cyfarfod y Bwrdd: 20 Gorffennaf 2017

EITEM AR YR AGENDA: 1

Teitl y papur:	Adroddiad Blynyddol y Bwrdd 2016-17
Diben y papur:	Rhoi Adroddiad Cryno i'r Bwrdd am ei waith yn ystod 2016-17.
Camau sy'n ofynnol gan y Bwrdd:	Gofynnir i'r Bwrdd drafod a chytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol drafft.
Swyddog sy'n cyflwyno'r papur:	Yr Ysgrifennydd Parhaol/Ysgrifennydd y Bwrdd
Papur wedi'i baratoi gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyhoeddi:	Dylid cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Bwrdd, unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo.
Dyddiad ei gyflwyno i'r Ysgrifenyddiaeth:	Amherthnasol

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd, Ebrill 2016 – Mawrth 2017**Rôl a chylch gwaith y Bwrdd****1. Rôl****1.1 Rôl y Bwrdd oedd:**

- darparu arweinyddiaeth a llywodraethiant effeithiol i Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru;
- goruchwyllo'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion strategol cytunedig Llywodraeth Cymru a sicrhau bod amcanion yr adrannau yn gyson;
- darparu sicrwydd ynglŷn â threfn effeithiol o ran strwythurau a dyrannu adnoddau ar draws y sefydliad, a sicrhau bod y sefydliad yn addas i'w ddiben ar gyfer y galw a'r swyddogaethau yn y dyfodol, trwy gyflawni a goruchwyllo Paratoi at y Dyfodol;
- goruchwyllo'r broses o roi Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith a'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â hwy;
- gweithio gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg i asesu a rheoli risg ac i gynnal system dryloyw o reolaethau corfforaethol darbodus ac effeithiol;
- goruchwyllo'r broses o wireddu ymrwymiad y sefydliad i sicrhau a hyrwyddo cyfle cyfartal a chael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth;
- cytuno ar strategaeth gorfforaethol i gynnal amgylchedd iach a diogel i staff ac ymwelwyr;
- monitro a mesur cynnydd a pherfformiad yn erbyn meincnodau sefydliadol a nodweddion perfformiad uchel;
- goruchwyllo'r dull o gyfathrebu'n fewnol â'r staff ynghylch blaenoriaethau a disgwyliadau'r sefydliad, yn arbennig o ran yr Arolwg Pobl;
- cymeradwyo cylch gorchwyl ei Is-bwyllgorau, goruchwyllo'u gweithgareddau a chytuno ar drefniadau ar gyfer adrodd am eithriadau.

Fel rhan o'i adolygiad perfformiad blynyddol, manteisiodd y Bwrdd ar y cyfle i ystyried ei Gylch Gorchwyl a chytunwyd ar fersiwn ddiwygiedig o fis Ebrill 2017 (Atodiad 1).

Strwythur yr Is-bwyllgorau

Yn ystod 2016-17, cynorthwywyd y Bwrdd gan:

- y **Pwyllgor Archwilio a Risg**, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Anweithredol ac yn cynnwys Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Risg y Grwpiau. Swyddogaeth y pwyllgor yw helpu'r Bwrdd i fonitro ac adolygu'r prosesau risg, rheolaeth a llywodraethiant sydd wedi'u sefydlu, ynghyd â'r prosesau sicrwydd cysylltiedig sydd ar waith yn y sefydliad. Yn ystod y flwyddyn, ailystyriwyd strwythur y Pwyllgor a daeth Cadeiryddion pob un o Bwyllgorau Archwilio a Risg y Grwpiau yn

aelodau, er mwyn sicrhau mwy o gyfathrebu a gweithio ar draws y Pwyllgorau;

- y **Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol**, sy'n gyfrifol am Strategaeth Taliadau'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) gan oruchwylio'r broses o asesu a chymedroli ar gyfer holl aelodau'r SCS a chytuno ar y prosesau recriwtio ar gyfer holl swyddi'r SCS. Caiff y pwyllgor hwn hefyd ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol;
- y **Pwyllgor Gweithrediadau**, sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau am faterion gweithredol strategol.

Mae'r Is-bwyllgorau i gyd wedi bod yn rhoi adroddiadau i'r Bwrdd yn rheolaidd ar lafar a byddant yn darparu Adroddiad Blynyddol ysgrifenedig i'r Bwrdd ar eu gwaith yn ystod y flwyddyn, fel rhan o'r broses sicrwydd diwedd blwyddyn.

Cofrestru buddiannau'r Bwrdd

Mae Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn cadw Cofrestr o Fuddiannau Preifat Aelodau'r Bwrdd a chaiff hon ei diweddarau bob blwyddyn o leiaf.

Treuliau Aelodau'r Bwrdd

Caiff treuliau Aelodau'r Bwrdd eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys y costau a hawlir ar gyfer eu gwariant ar deithio, llety a chynhaliaeth wrth gyflawni busnes Llywodraeth Cymru.

Aelodau'r Bwrdd

Dyma fanylion presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn 2016-17:

		Presenoldeb
Shan Morgan	Ysgrifennydd Parhaol (o fis Chwefror 2017 ymlaen)	2 allan o 2
Syr Derek Jones KCB	Ysgrifennydd Parhaol (tan fis Chwefror 2017)	6 allan o 6
Gillian Baranski	Aelod arweiniol y Bwrdd ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth	8 allan o 8
Gawain Evans	Cyfarwyddwr Cyllid	8 allan o 8
Owen Evans	Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus	8 allan o 8
Sioned Evans	Cadeirydd y Pwyllgor Gweithrediadau	6 allan o 8
Jeff Godfrey	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol	7 allan o 8
Dr Andrew Goodall	Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru	8 allan o 8

Peter Kennedy	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	8 allan o 8
Natalie Pearson	Dirprwy Gyfarwyddwr, Ymgysylltu ac Arloesi	8 allan o 8
James Price	Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol	7 allan o 8
David Richards	Cyfarwyddwr Llywodraethiant	8 allan o 8
Ann Keane	Cyfarwyddwr Anweithredol	6 allan o 8
Yr Athro Elan Closs Stephens CBE	Cyfarwyddwr Anweithredol	7 allan o 8
James Turner	Cyfarwyddwr Anweithredol	8 allan o 8
Yr Athro Syr Adrian Webb	Cyfarwyddwr Anweithredol	7 allan o 8

Roedd Syr Derek Jones hefyd yn aelod o Fwrdd y Gwasanaeth Sifil a chafodd ei gysgodi yn y rôl gan aelod o staff Llywodraeth Cymru, fel cyfle datblygu. Yr aelod cysgodol o Fwrdd Llywodraeth Cymru yn ystod rhan gyntaf 2016-17 oedd Christopher Dawson, ac yna Sarah Rhodes a Lynne Schofield (partneriaeth rhannu swydd) o fis Rhagfyr 2016 ymlaen. Mae'r aelodau cysgodol yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd.

Cyfarwyddwyr Anweithredol

Roedd y Bwrdd yn cynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol, sy'n rhoi persbectif allanol ac yn darparu cyngor a her i'r Bwrdd.

Elan Closs Stephens oedd cadeirydd yr Is-bwyllgor Archwilio a Risg a James Turner oedd cadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth, ac roedd y Cyfarwyddwyr Anweithredol eraill yn aelodau o'r Pwyllgorau hynny.

Mae'r Cyfarwyddwyr Anweithredol hefyd wedi bod yn gwneud gwaith ar wahân i gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd a'r Pwyllgorau, er enghraifft trwy wasanaethu ar fyrdau rhaglen ar gyfer prosiectau strategol mawr, gweithredu fel aelodau o baneli recriwtio, a mentora a mynychu cyfarfodydd gydag aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil. Trwy hynny maent yn cyfrannu hefyd at waith ehangach y sefydliad.

Busnes y Bwrdd

Mae'r cofnod isod yn rhoi golwg gyffredinol ar y busnes yr ymgymerodd y Bwrdd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17. Cafodd y Bwrdd adborth rheolaidd ar waith ei Is-bwyllgorau ac ar y materion a ddirprwywyd iddynt.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf fe wnaeth y Bwrdd:

- barhau â'r eitem sy'n caniatáu i aelodau'r Bwrdd fonitro'r **cynnydd a wneir mewn meysydd cyflawni allweddol**. Roedd y pynciau hynny'n cynnwys Taliadau Gwledig, Perfformiad y GIG, Wylfa Newydd, y Rhaglen Lywodraethu a Datblygu Trysorlys Cymru;

- cynnal adolygiad o'i **effeithiolrwydd** a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer ei drafodaethau, ynghyd â Chylch Gorchwyl diwygiedig;
- trafod canlyniad Refferendwm yr UE a'r datblygiadau dilynol o ran **Trefniadau Pontio'r UE**;
- adolygu **risgiau** lefel uchel y sefydliad a rhannu gwybodaeth am risgiau adrannol;
- monitro **rheolaeth ariannol** trwy adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd, a pharhau i herio cydweithwyr ynglŷn â'r gwaith sydd ar y gweill i reoli'r sefyllfa gyffredinol. Bu'r Bwrdd yn trafod y Cyfrifon Cyffredinol a'r Datganiad Llywodraethiant cysylltiedig hefyd, cyn iddynt gael eu llofnodi gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu ac Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- derbyn adroddiadau llafar rheolaidd gan Is-bwyllgorau'r Bwrdd (**Archwilio a Risg, Taliadau Cydnabyddiaeth, a Gweithrediadau**) a chymeradwyo eu Hadroddiadau Blynnyddol. Roedd yr adroddiadau hyn yn rhan o'r broses o roi sicrwydd i'r Bwrdd a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu cyn i'r Cyfrifon Blynnyddol gael eu cyflwyno i'w llofnodi;
- derbyn gwybodaeth am y buddion a'r arbedion a nodwyd fel rhan o'r rhaglen **Paratoi at y Dyfodol**;
- derbyn adroddiad cynnydd pellach ar **Weithio Hyblyg** fel rhan o'r cynllun peilot ym Merthyr;
- ystyried y **Gwerthusiad o'r Cynllun Penodiadau Hyblyg** a chytuno i ddod â'r rhaglen i ben, ond gan ddirprwyo i'r Pwyllgor Gweithrediadau y gwaith o ystyried sut y gallai'r broses 'symudiadau wedi'u rheoli' sicrhau cysondeb a thegwch ac annog staff i weithio ar draws ffiniau;
- cytuno ar egwyddorion polisi **Absenoldeb Tosturiol**;
- cymryd rhan mewn trafodaethau am **Raglen TGCh y Dyfodol** gan gynnwys sefydlu prif egwyddorion y Strategaeth TGCh, cydnerthedd a chytuno ar ddyfais yn lle'r BlackBerrys;
- cytuno ar ddatblygu **Strategaeth Iechyd a Llesiant**, sy'n cynnwys polisiau sy'n llwyddiannus eisoes;
- ystyried y dadansoddiad manwl o'r **Arolwg Pobl** a chytuno ar Gynllun Gweithredu sy'n gofyn am i waith ganolbwyntio ar arweinyddiaeth a rheoli newid (yn ogystal â'r gwaith gwella a oedd wedi dechrau'n barod o ran TGCh), gyda chamau gweithredu i helpu rheolwyr yn y meysydd hyn. Cytunodd yr aelodau hefyd y dylai'r Cyfarwyddwyr Anweithredol fod yn rhan o Grwpiau Ffocws i ystyried sut y gellid llunio arolygon ac iddynt fwy o ffocws, ac a fyddai'n fuddiol ymchwilio ymhellach i unrhyw faterion penodol;
- clywed adroddiad ar gynnydd gan Eiriolwr **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** y Bwrdd, gan gynnwys diweddiariad ar dargedau

Amrywiaeth y Gweithlu, yr wythnos Cydraddoldeb ac Amrywiaeth lwyddiannus a phenodi 100 o Gynorthwyr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Cytunodd y Bwrdd ar amcan amrywiaeth corfforaethol ar gyfer Rheolwyr Llinell, cynigion i gynyddu nifer y staff sy'n uniaethu fel pobl ag anableddau neu bobl dduon, Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig, a chynigion hefyd i sefydlu cynllun peilot Mentora o Chwith. Cawsant gyflwyniad gan Sue Owen (Ysgrifennydd Parhaol yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Eiriolwr Amrywiaeth y Gwasanaeth Sifil) ynglŷn â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar amrywiaeth yn y Gwasanaeth Sifil. Rhannodd y Bwrdd wybodaeth gyda hi am y gwaith allweddol sydd ar y gweill yn Llywodraeth Cymru;

- derbyn diweddariadau rheolaidd am **Wybodaeth Reoli** gorfforaethol, materion **Cyfnewid Tramor** a data **Gweithlu**;
- cytuno ar Ddangosydd Perfformiad Allweddol i wella'r amser ymateb i **gwynion**; a
- rhannu gwybodaeth am ystod o faterion cyfredol, gan gynnwys rhoi **Safonau'r Gymraeg** ar waith, hynt **Bil Cymru**, a **blaenoriaethau a heriau'r** Grwpiau;
- cytuno i dreialu ffordd newydd o weithio trwy ddechrau defnyddio **system ddibapur** ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd.

Cyfathrebu gwaith y Bwrdd

Cafodd y tîm Cyfathrebu Mewnol gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Ysgrifennydd Parhaol i nodi'r prif feysydd ar gyfer cyfathrebu ac ymdrin â materion.

Roedd agendâu, cofnodion a phapurau'r Bwrdd ar gael i'r cyhoedd ac i'r holl staff ar y we chwe wythnos ar ôl pob cyfarfod.

Gwelededd y Bwrdd

Ym mis Medi, cynhaliodd y Bwrdd ei gyfarfod yn swyddfa Merthyr, a dilynwyd hynny gan sesiwn ymgysylltu agored. Cymerodd yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Dirprwy Ysgrifenyddion Parhaol/Dirprwy Gyfarwyddwyr ran mewn digwyddiadau Fforwm Agored mewn lleoliadau ar draws Cymru i alluogi'r staff i drafod yn uniongyrchol gyda nhw.

Cymerodd aelodau'r Bwrdd ran hefyd mewn sesiynau ymgysylltu ar-lein gyda'r sefydliad – er enghraifft drwy'r Fforwm Ar-lein a thrwy Cyfnewid.

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Mehfin 2017

Atodiad 1

Cylch Gorchwyl y Bwrdd, Ebrill 2017

Aelodaeth a Rôl

- Mae'r Bwrdd yn cefnogi'r Ysgrifennydd Parhaol, gan ei herio a'i chynghori wrth iddi gyflawni ei rôl. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn unol ag arferion gorau'r Gwasanaeth Sifil. Mae manylion yr aelodau presennol i'w gweld yn Atodiad A.
- **Rôl y Bwrdd yw:**
 - goruchwyllo'r gwaith, ar ran Prif Weinidog Cymru a'i Gabinet, o weithredu *Symud Cymru Ymlaen* yn effeithiol, drwy'r Strategaeth *Ffyniant i Bawb*, ac yn unol ag amcanion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, a hefyd sicrhau bod amcanion ac adnoddau adrannau yn gydnaws;
 - helpu i sicrhau bod gan y sefydliad yr adnoddau, y strwythur, a'r sgiliau y mae eu hangen i fodloni galwadau a chyflawni swyddogaethau yn y dyfodol, drwy roi cyngor i'r Ysgrifennydd Parhaol ar ddyrannu adnoddau mewnol yn strategol ac mewn modd sy'n helpu i wireddu blaenoriaethau'r Gweinidogion;
 - rhoi cyngor i'r Ysgrifennydd Parhaol a'i herio wrth iddi gyflawni ei rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu gan sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n unol â'r safonau uchaf o ran llywodraethiant, gwneud penderfyniadau a rheoli cyllid.

Dulliau gweithredu

- Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol unwaith y mis, ac o bryd i'w gilydd bydd yn cynnal sesiynau gweithio llai ffurfiol.
- Caiff papurau'r Bwrdd eu cylchredeg bum diwrnod gwaith cyn ei gyfarfodydd, ac mae'r cofnodion yn cael eu hanfon at yr aelodau o fewn pum diwrnod gwaith i ddyddiad cyfarfod.
- Disgwylir i aelodau'r Bwrdd gadw at God Ymarfer Aelodau'r Bwrdd. Gweler Atodiad B.

Strwythur yr Is-bwyllgorau

- Mae gan y Bwrdd dri is-bwyllgor: Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yr Uwch-wasanaeth Sifil a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (y naill a'r llall yn cael eu cadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol), a'r Pwyllgor Gweithrediadau, sy'n cael ei gadeirio gan un o Gyfarwyddwyr neu Ddirprwy Gyfarwyddwyr Llywodraeth Cymru.

- Caiff y Bwrdd hefyd sefydlu grwpiau ad-hoc, yn ôl yr angen, i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol allweddol.
- Mae cylchoedd gorchwyl yr is-bwyllgorau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Atodiad A

Aelodau'r Bwrdd

Shan Morgan	Yr Ysgrifennydd Parhaol
Ann Keane	Cyfarwyddwr Anweithredol
Yr Athro Elan Closs Stephens CBE	Cyfarwyddwr Anweithredol
James Turner	Cyfarwyddwr Anweithredol
Yr Athro Syr Adrian Webb	Cyfarwyddwr Anweithredol
Gillian Baranski OBE	Prif Arolygydd AGGCC ac aelod arweiniol y Bwrdd ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
Gawain Evans	Cyfarwyddwr Cyllid
Owen Evans	Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Jeff Godfrey	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Dr Andrew Goodall	Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru
Peter Kennedy	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
Natalie Pearson	Dirprwy Gyfarwyddwr, Ymgysylltu ac Arloesi
James Price	Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
David Richards	Cyfarwyddwr Llywodraethiant
Aelod Cysgodol o'r Bwrdd	

Cod Ymarfer Aelodau'r Bwrdd

Ymddygiad Cyffredinol

Dylai aelodau'r Bwrdd:

- roi blaenoriaeth i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd, gan eu mynychu mewn modd amserol; rhoi gwybod i'r Ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw os nad ydynt yn gallu mynychu cyfarfod neu ran ohono;
- penodi dirprwy addas i fynd yn eu lle, os nad ydynt fel aelod gweithredol o'r Bwrdd yn gallu mynd i gyfarfod eu hunain;
- ymgyswddo'n llawn â manylion y busnes sydd i'w drafod cyn mynd i gyfarfod er mwyn cyfrannu'n llawn ac yn ystyrlon at waith y Bwrdd;
- dangos parch at y Cadeirydd ac at eu cyd-aelodau, gan eu trin â chwarteisi bob amser;
- sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Bod yn agored

- Mae agendâu, cofnodion a phapurau'r Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngwyd chwe wythnos wedi'r cyfarfod, yn unol â Chynllun Cyhoeddi Llywodraeth Cymru.
- Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn cadw Cofrestr o fuddiannau preifat aelodau'r Bwrdd a bydd y gofrestr hon yn cael ei diweddarau bob blwyddyn.
- Os bydd gan aelod o'r Bwrdd bryder ynghylch gwrthdaro posibl rhwng ei fuddiannau busnes a'i fuddiannau preifat, bydd angen iddo ddatgan hyn yn y cyfarfod perthnasol. Caiff unrhyw ddatganiad o'r fath ei nodi yn y cofnodion.
- Mae'r costau sy'n cael eu hawlio gan aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys y Cyfarwyddwyr Anweithredol, yn cael eu cyhoeddi ar safle'r Bwrdd ar y rhyngwyd.
- Mae sylwadau ar y Bwrdd, ei aelodaeth a'i waith yn cael eu cynnwys yn rhagair yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Cyfrifon Blynnyddol.